



# Prifysgol Caerdydd

## Ffurflen Gais Ôl-raddedigion

### Nodiadau Cyfarwyddyd (ceisiadau ar bapur)

#### Cyffredinol

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn i'w defnyddio gyda ffurflen 'Cais am Le fel Myfyriwr Ôl-raddedig'. Dylai pawb sy'n gwneud ceisiadau ar bapur am gwrs ôl-raddedig a addysgir a graddau ymchwil yng nghampws Parc Cathays a champws Parc y Mynydd Bychan Prifysgol Caerdydd gwblhau'r ffurflen hon.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen gais yn cael ei defnyddio i ystyried eich cais ac, os cynigir lle i chi, i wneud trefniadau ar gyfer eich derbyn. Bydd y wybodaeth yn y ffurflen gais yn cael ei defnyddio i ystyried eich cais ac, os cynigir lle i chi, i wneud trefniadau ar gyfer eich derbyn. Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi darllen ein gwybodaeth ar y **Chwiliwr Cyrsiau** cyn llenwi'r ffurflen gais. [Rhowch wybod i ni os nad ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i allu llenwi'r ffurflen gais.](#)

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl arferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr. Nod y Brifysgol yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu ymgeiswyr o bob oed, ethnigrwydd, anabledd, patrwm teuluol, rhywedd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, cred grefyddol neu gred arall, a chefnidir economaidd gymdeithasol, a sicrhau bod cyfle cyfartal iddyn nhw. Mae'r ymrwymiad hwn yn ffurfio rhan o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd i'w gael ar ein gwefan yn [www.caerdydd.ac.uk/cocom/equalityanddiversity](http://www.caerdydd.ac.uk/cocom/equalityanddiversity)

Mae'r ffurflen wedi'i rhannu'n sawl adran, a dylech ei llenwi'n glir mewn priflythrennau ac inc du.

Rhan 1: Rhaglen Ôl-raddedig Arfaethedig  
Rhan 2: Manylion Personol  
Rhan 3: Cenedligrwydd a Gwybodaeth am eich Fisa  
Rhan 4: Cymhwysedd yn y Gymraeg/Saesneg  
Rhan 5: Cymwysterau Academaidd a Phroffesiynol  
Rhan 6: Datganiad Personol

Rhan 7: Ymgeiswyr Ymchwil yn unig  
Rhan 8: Geirdaon Cyfrinachol  
Rhan 9: Sut cawsoch wybod am gyfleoedd ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd?  
Rhan 10: Datganiad  
Rhan 11: Prosesu data

## Adran 1 Rhaglen Ôl-raddedig Arfaethedig

1.1 Nodwch yr Ysgol/Ysgolion yr hoffech astudio ynddi.

1.2 Ymgeiswyr cyrsiau a addysgir - ticiwch y bocs sy'n cyfeirio at y rhaglen ôl-raddedig yr hoffech ei hastudio. Os ydych am ymgeisio am raglen nad yw ar y rhestr, nodwch hyn yn y lle a ddarparwyd. Nodwch hefyd union deitl y rhaglen a addysgir yr ydych yn gwneud cais amdani. Bydd hyn yn sicrhau bod eich cais yn cael ei ystyried gan y tiwtor(iaid) derbyniadau perthnasol ac yn helpu i atal oedi. Defnyddiwch deitl y cwrs ar dudalen y [chwiliwr cyrsiau](#).

Ymgeiswyr cyrsiau a addysgir - ticiwch y bocs sy'n cyfeirio at y radd ymchwil yr hoffech ei hastudio. Nodwch hefyd y pwnc neu'r maes ymchwil arfaethedig, neu enw'r grwp/grwpiau ymchwil y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Nodwch y grwp ymchwil trwy ddefnyddio'r teitl a roddir yn y Prosbectws Ôl-raddedig cyfredol. Os nad ydych yn siŵr pa ysgol academiaidd neu grwp ymchwil sy'n briodol, gallech ddefnyddio cronfa ddata'r **Chwiliwr Cyrsiau** yn [www.caerdydd.ac.uk/postgraduate](http://www.caerdydd.ac.uk/postgraduate). Os ydych am astudio am Ddoethuriaeth Broffesiynol, ticiwch y bocs perthnasol.

Bydd angen i ymgeiswyr ymchwil, gan gynnwys ymgeiswyr doethuriaethau proffesiynol, gwblhau Cynnig Ymchwil\* hefyd. Mae rhagor o fanylion ar ddiwedd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

1.3 Defnyddiwch y bocs gwirio i nodi a ydych yn bwriadu astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser. Mae rhai cyrsiau ar gael fel cyrsiau amser llawn yn unig; mae eraill ar gael yn rhan-amser yn unig. Edrychwch yn y Prosbectws Ôl-raddedig os nad ydych yn siŵr.

1.4 Nodwch y mis a'r flwyddyn yr hoffech chi ddechrau astudio. Mae mwyafrif ein cyrsiau Athro a Diploma yn dechrau ym mis Medi bob blwyddyn. Gwiriwch pryd mae'r cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano yn cychwyn drwy edrych ar wybodaeth mynediad cwrs unigol yn y Prosbectws Ôl-raddedig. Os ydych yn ymgeisio am MPhil/PhD, gall y rhain ddechrau ar 1 Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf, gyda chytundeb yr Ysgol berthnasol.

1.5 Os ydych yn aelod o staff Prifysgol Caerdydd, ticiwch y blwch a rhowch eich rhif adnabod personol staff (gallwch gael hwn o'ch slip cyflog). Rhaid i ymgeiswyr sy'n staff o Brifysgol Caerdydd gwblhau ond adrannau 1,2,3,1,5 ac 11 o'r ffurflen gais; does dim angen iddynt gyflwyno datganiad personol na geirdaon.

## Adran 2 Manylion Personol

### 2.1-Cyfenw

Bydd eich ffeil yn cael ei chofrestru dan yr enw hwn a dyma'r enw dylech chi ei ddefnyddio ar unrhyw ohebiaeth â ni yn y dyfodol. Gofalwch mai dyma'r enw ar eich trawsgrifiadau, geirdaon a'ch pasport i osgoi dryswch.

### Enw(au) cyntaf

Nodwch eich holl enwau cyntaf yn y drefn y maent yn ymddangos ar ddogfennau swyddogol. Nid yw'r llythrennau cyntaf yn ddigon. Gallwch nodi hyd at dri enw. Gwnewch yn siŵr hefyd fod yr holl enwau hyn yn cyfateb i'r enwau ar eich pasport.

### Teitl

Nodwch y teitl rydych yn ei ddefnyddio fel arfer. Er enghraifft: Dr, Miss, Ms, Mr, Mrs, Yr Athro. Peidiwch â'i adael yn wag.

### Enw Blaenorol

Os oes gennych enw blaenorol, nodwch yr enw hwn hefyd e.e. os ydych wedi priodi neu gael ysgariad.

### Dyddiad geni

Mae eich dyddiad geni cywir gyda'ch rhif cais yn ein galluogi i nodi eich cofnod ymgeisio yn rhwydd.

### 2.2 Ydych chi'n gwneud cais gydag Ymgynghorydd Addysgol/Asiant?

Rhowch enw'r asiant rydych yn ei ddefnyddio.

### 2.3 Hoffech chi awdurdodi rhywun i weithredu ar eich rhan?

Os ydych yn darparu unigolyn wedi'i awdurdodi, bydd hyn yn ein galluogi i drafod manylion eich cais gydag ef/hi, naill ai'n ysgrifenedig neu dros y ffon.

### 2.4 Cyfeiriad Cartref (parhaol)

Defnyddir y cyfeiriad hwn ar gyfer pob gohebiaeth atoch am eich cais oni bai eich bod yn nodi cyfeiriad gohebu. Dylech gynnwys cyfeiriad ebost yr ydych yn ei ddefnyddio'n rheolaidd. Ebost yw'r dull gorau o gysylltu â chi mewn perthynas

â'ch cais fel rheol. Os byddwch yn newid cyfeiriad neu unrhyw fanylion cysylltu eraill, rhowch wybod i'r Gofrestrfa yn syth drwy anfon neges ebost at [admissions@caerdydd.ac.uk](mailto:admissions@caerdydd.ac.uk)

### **Cyfeiriad gohebu**

Nodwch gyfeiriad cysylltu os ydych chi'n debygol o fod i ffwrdd o gartref am gyfnod hir e.e. yn astudio. Os ydych chi'n rhoi cyfeiriad gohebu, bydd pob gohebiaeth am eich cais yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwn rhwng y dyddiadau yr ydych yn eu nodi. Os byddwch yn newid cyfeiriad, rhowch wybod i ni yn syth drwy anfon neges ebost at [admissions@caerdydd.ac.uk](mailto:admissions@caerdydd.ac.uk)

Os ydych yn gwneud cais am gyrsiau ym meysydd addysgu, iechyd, gwaith cymdeithasol a chysiau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion agored i niwed, rhaid ichi ddweud wrthym am unrhyw euogfarnau troseddol, gan gynnwys dedfrydau a dreuliwyd a rhybuddion (gan gynnwys rhybuddion llafar) a gorchmynion rhwymo. Ar gyfer y cyrsiau hyn, efallai y bydd angen i chi gael 'dogfen datgeliad manwl' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Wasanaeth Datgelu Swyddfa Cofnodion Troseddol yr Alban. Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech roi gwybod i ni am euogfarn flaenorol, gofynnwch am ragor o gyngor gan y gwasanaeth prawf neu eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, neu gan NACRO (y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofalu am Droseddwy'r a'u Hailsefydlu). Gallwch hefyd gysylltu â chyfreithiwr, ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am gyngor cyfreithiol. Mae'n bosibl y gofynnir i chi am ragor o fanylion maes o law.

**Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn os nad ydych yn gwneud cais am raglen a reoleiddir. Os nad ydych yn siwr, cysylltwch ag [admissions@caerdydd.ac.uk](mailto:admissions@caerdydd.ac.uk).**

### **Adran 3 Cenedligrwydd a Gwybodaeth am eich Fisa**

#### **Y wlad yr ydych yn breswylwr parhaol ynddi**

Nodwch y wlad yr ydych yn breswylwr parhaol ynddi ac a ydych wedi byw yno ers i chi gael eich geni. Os nad ydych wedi byw ynddi ers i chi gael eich geni, nodwch pryd y daethoch i'w wlad hon a ble gawsoch eich geni.

#### **Cenedligrwydd**

Rhowch eich cenedligrwydd fel y mae'n ymddangos ar eich pasbort. Os oes gennych genedligrwydd deuol, defnyddiwch y gofod yma i enwi'ch ail genedligrwydd.

\*Os bydd angen fisa arnoch, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r wlad gyda'r pasbort y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer eich cais am fisa fel eich cenedligrwydd cyntaf. Bydd y Brifysgol yn defnyddio eich cenedligrwydd cyntaf ar eich gohebiaeth ynglŷn â'ch fisa.

#### **Rhif Pasbort/Cerdyn Adnabod Cenedlaethol**

Os oes gennych y wybodaeth yma, nodwch rif eich pasbort/cerdyn adnabod yn ogystal â'r dyddiadau dechrau a gorffen. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych y wybodaeth yma ar hyn o bryd, ond bydd angen i chi ei chyflwyno i gael eich fisa neu pan fyddwch yn ymrestru yn y Brifysgol.

Os ydych yn gwneud cais am gyrsiau ym meysydd addysgu, iechyd, gwaith cymdeithasol a chysiau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion agored i niwed, rhaid ichi ddweud wrthym am unrhyw euogfarnau troseddol, gan gynnwys dedfrydau a dreuliwyd a rhybuddion

(gan gynnwys rhybuddion llafar) a gorchmynion rhwymo. Ar gyfer y cyrsiau hyn, efallai y bydd angen i chi gael 'dogfen datgeliad manwl' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Wasanaeth Datgelu Swyddfa Cofnodion Troseddol yr Alban. Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech roi gwybod i ni am euogfarn flaenorol, gofynnwch am ragor o gyngor gan y gwasanaeth prawf neu eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, neu gan NACRO (y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofalu am Droseddwy'r a'u Hailsefydlu). Gallwch hefyd gysylltu â chyfreithiwr, ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am gyngor cyfreithiol. Mae'n bosibl y gofynnir i chi am ragor o fanylion maes o law.

**Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn os nad ydych yn gwneud cais am raglen a reoleiddir. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch ag [admissions@caerdydd.ac.uk](mailto:admissions@caerdydd.ac.uk).**

#### **Sylwer: Gwirio Cofnodion Troseddol**

Gall cael eich derbyn i wneud cyrsiau Ôl-raddedig ddibynnu ar fodloni Adran 4(2) Gorchymyn (Eithrio) 1975 y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwy'r (1974) a chanllawiau Cylchlythyr HV 88(9) y DHSS ynghylch diogelu plant a gwiriadau gan yr heddlu.

Felly, os ydych yn bwriadu gwneud cais, efallai bydd angen i chi fodloni proses Datgeliad Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rhoddir yr Ymwrthodiad ar y ffurflen gais. Os oes angen cliriad Swyddfa Cofnodion Troseddol i ddilyn y cwrs, bydd y ffurflenni perthnasol yn cael eu darparu ar gyfer yr ymgeiswyr.

## Adran 4 Cymhwysedd yn y Gymraeg/Saesneg

Nodwch eich mamiaith (eich iaith frodorol) yn y blychau a ddarparwyd. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich mamiaith, gofynnir i chi nodi eich lefel cymhwysedd yn Saesneg drwy nodi pa gymwysterau iaith Saesneg sydd gennych a'r radd/sgôr a gawsoch. Noder bod angen safon foddhaol mewn cymhwyster cymeradwy cyn y gellir gwneud cynnig diamod i astudio rhaglen ôl-raddedig. Rhwch dystiolaeth hefyd eich bod wedi ennill y cymwysterau uchod (e.e. llungopi o dystysgrif).

## Adran 5 Cymwysterau Academaidd a Phroffesiynol

Mae'n angenrheidiol i bob ymgeisydd gynnwys copiâu o'u trawsgrifiadau/tystysgrifau gradd, wedi eu cyfieithu, lle bo angen, i'r Saesneg. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

### 5.1 Cymwysterau academaidd cyfredol/diweddaraf

Rhowch fanylion am eich gradd israddedig neu ôl-raddedig ddiweddaraf - neu'r radd israddedig neu ôl-raddedig yr ydych yn ei hastudio ar hyn o bryd Mae'n bwysig datgan y cymhwyster a gafwyd (gan gynnwys dosbarth y radd a ddyfarnwyd os yn berthnasol), pwnc/pynciau'r radd, dyddiad dyfarnu'r radd neu ddyddiad y canlyniadau, hyd y cwrs ac a oedd/yw eich astudiaethau'n amser llawn, rhan-amser neu'n gwrs dysgu o bell. Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad llawn hefyd, yn cynnwys y wlad a'r brifysgol yr ydych/buoch yn astudio ynddi.

### 5.2. Cymwysterau academaidd eraill a gwblhawyd

Rhestrwch hefyd unrhyw gymwysterau academaidd eraill a enillwyd gennych ar ôl 16 oed.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid derbyn yn cymryd sylw o'r cymwysterau academaidd a gawsoch mewn sefydliadau addysg uwch (prifysgol neu goleg), ond mae rhai ysgolion academaidd yn gofyn am dystiolaeth o gymwysterau a enillwyd cyn hynny, fel Safon Uwch, Diploma, HND, TGAU ac ati.

Os nad ydych yn siŵr pa fanylion sydd eu hangen ar yr Ysgol yr hoffech astudio ynddi, cysylltwch â'r Ysgol yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion yn y Prosbectws Ôl-raddedig.

### 5.3 Cymwysterau proffesiynol

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau proffesiynol (gyda dyddiadau) sy'n berthnasol i'ch cais.

### 5.4 Profiad Proffesiynol

Rhowch fanylion unrhyw brofiad proffesiynol diweddar y credwch ei fod yn berthnasol i'ch cais.

### 5.5 Aelodaeth o Gyrrff Proffesiynol

Rhowch fanylion unrhyw aelodaeth o gyrrff proffesiynol, gan gynnwys y dyddiad y daethoch yn aelod ac, os yn berthnasol, dyddiad y daw'r aelodaeth i ben, lefel yr aelodaeth a'r rhif cofrestru.

## Adran 6 Datganiad Personol

Dyma'ch cyfle i ddweud wrth y Tiwtor Derbyn pam eich bod am ddilyn y rhaglen ôl-raddedig arfaethedig a pha fudd yr ydych yn gobeithio ei gael ohoni. Dylech ddefnyddio'r adran hon i roi unrhyw wybodaeth a allai gefnogi eich cais am gael eich derbyn, er enghraifft sgiliau perthnasol, profiad a nodau gyrfaal.

## Adran 7 Ymgeiswyr Ymchwil yn unig

### Cynnig Ymchwil

Rhaid i ymgeiswyr rhaglenni Ymchwil, gan gynnwys ymgeiswyr doethuriaethau proffesiynol, hefyd gwblhau Cynnig Ymchwil ar wahân. Dylai gynnwys tua **3,000** gair, fod wedi'i deipio, a'i gyflwyno gyda'r ffurflen gais hon. Ei ddiben, yn gyntaf oll, yw cadarnhau bod gan yr ymgeisydd brosiect ymchwiliadwy mewn golwg. Yn ail, bydd yn sicrhau'r Ysgol fod gan yr ymgeisydd yr arbenigedd sydd ei angen i roi goruchwyliaeth ddigonol.

Argymhellir y dylai'r cynnig fod wedi'i drefnu i gynnwys rhai (neu bob un) o'r canlynol: teitl posibl ar gyfer yr ymchwil arfaethedig; nodau ac amcanion yr ymchwil; amlinelliad o'r fethodoleg/dyluniad arfaethedig, gan gynnwys gwybodaeth am sampl yr ymchwil a'r dulliau casglu data; rhestr o gwestiynau y bydd yr ymchwil yn eu hateb; llyfryddiaeth enghreifftiol yn ogystal â chrynodeb byr o'r ymchwil sydd eisoes wedi'i gynnal yn y maes hwn. Ar frig y Cynnig, dylai'r ymgeiswyr ysgrifennu eu henwau, i ba ysgol y maent wedi cyflwyno'r cais, yn ogystal â'u gradd arfaethedig. Os ydych eisoes mewn cysylltiad â Goruchwyllydd posibl, nodwch eu henw.

Os ydych yn gwneud cais ar gyfer prosiect wedi ei hysbysebu, nid oes rhaid i chi gwblhau cynnig ymchwil. Rhestrwch deitl y prosiect(au) y dymunwch gael eich ystyried ar eu cyfer. Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer mwy nag un prosiect, ni fydd rhaid ichi gwblhau mwy nag un cais.

Nodwch sut ydych chi'n bwriadu ariannu eich ymchwil. Os ydych yn gwneud cais am arian, nodwch y corff ariannu y byddwch yn cyflwyno cais iddyn nhw.

## Adran 8 Geirdaon Cyfrinachol

Rhaid i chi roi enwau a chyfeiriadau dau unigolyn (canolwyr) sydd â gwybodaeth am eich gallu academaidd neu broffesiynol i gefnogi eich cais. Os ydych yn fyfyrwr ar hyn o bryd neu newydd gwblhau eich astudiaethau, rhaid i o leiaf un o'r canolwyr fod yn ddarlithydd neu athro yn eich prifysgol.

### 8.1 Geirdaon

Dylid rhoi geirdaon mewn amlenni wedi'u selio a'u llofnodi a/neu eu stampio'n swyddogol ar draws y sêl. Fe'ch cyngorir i anfon y ffurflenni/llythyrau geirdaon hyn gyda'r cais hwn. Gallwch ddefnyddio'r ffurflenni geirda yn y Prosbectws Ôl-raddedig hefyd (gellir eu dadlwytho o'r wefan [www.caerdydd.ac.uk/courses/postgraduate](http://www.caerdydd.ac.uk/courses/postgraduate)) neu gellir teipio'r llythyrau yn newis arddull y canolwr. Lle bo'n bosibl, dylid stampio llythyrau yn swyddogol a nodi cyfeiriad post, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad ebost y canolwr. Os bydd y canolwr yn dewis teipio'r llythyr, rhowch gopi o'r ffurflen adroddiad canolwr iddo/iddi, gan ei bod yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd i'r canolwr. I'n helpu i baru eich dogfennau â'ch cais, gwnewch yn siŵr fod y tystlythyron yn cynnwys eich enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y cais. Nodwch na fyddwn yn ystyried eich cais heb eirdaon.

## Adran 9 Sut cawsoch wybod am Brifysgol Caerdydd

Defnyddiwch y blychau i nodi sut y clywsoch chi am gyfleoedd astudio ym Mhrifysgol Caerdydd – ticiwch bob blwch perthnasol.

## Adran 10 Datganiad

Llofnodwch eich ffurflen gais a nodi'r dyddiad arni i gadarnhau bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn wir, yn gyflawn ac yn gywir, ac mae eich gwaith chi yn unig yw'r unig waith a gyflwynwyd i ategu'r cais hwn.

## Adran 11 Diogelu data

Er mwyn ystyried eich cais, bydd angen i chi ganiatáu i'ch data personol gael ei rannu er mwyn i ni allu prosesu eich gwybodaeth. Darllenwch y ffurflen rhoi caniatâd yn ofalus a thicio'r blwch i nodi eich bod yn cytuno â'r datganiad pan fyddwch yn barod i wneud hynny.

## Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

### Galwedigaeth y Rhiant / Gwarcheidwad (Gofynnir am y wybodaeth hon gan Ymgeiswyr (Statws ffioedd cartref) y DU yn unig)

Dymuna Prifysgol Caerdydd sicrhau bod amrywiaeth gymdeithasol a'i hamcanion ehangu mynediad yn cael eu hadlewyrchu yn y boblogaeth myfyrwr ar bob lefel astudio – boed israddedig, ôl-raddedig neu addysg barhaus. Ar hyn o bryd, mae data economaidd-gymdeithasol yn cael ei gasglu drwy broses UCAS ar gyfer ymgeiswyr israddedig yn unig. Hoffai Prifysgol Caerdydd ymestyn y broses hon i'r rhai sy'n gwneud cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn galluogi ymgymryd â dadansoddiadau ystadegol er mwyn nodi unrhyw grwpiau sydd efallai'n cael eu tangynrychioli yng nghymuned myfyrwr y Brifysgol ac yn galluogi sefydlu'r mecanweithiau cymorth y gellid eu rhoi ar waith i annog y myfyrwr hynny i ystyried gwneud cais i Brifysgol Caerdydd. Er nad oes rhaid i chi roi'r wybodaeth hon, byddem yn ddiolchgar am eich cymorth yn y broses hon.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych isod yn rhan o'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb yn cael ei datgysylltu o'ch cais ac ni fydd ar gael i'r staff sy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau dewis. Os cewch eich derbyn ar y cwrs, bydd y wybodaeth hon yn rhan o'ch cofnod myfyrwr a bydd yn parhau i gael ei defnyddio at ddibenion monitro drwy gydol cyfnod eich astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd defnydd o'r fath yn rhwym wrth ofynion Deddf Diogelu Data 1998.

### Diffiniadau o Gategoriâu Galwedigaeth

#### Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch

Cyflogi eraill mewn mentrau sy'n **cyflogi 25 o bobl neu fwy**. Cynllunio a goruchwyllo gweithrediadau ar ran y cyflogwr – yn meddu ar wybodaeth a phrofiad sylweddol.

Galwedigaethau proffesiynol megis darlithydd prifysgol, cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferwr meddygol, gwyddonydd.

#### Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is

Cynllunio a goruchwyllo gweithrediadau **o dan gyfarwyddyd rheolwyr uwch** (Galwedigaethau fel rheolwr banc, rheolwr bwyty, rheolwr manwerthu).

### Galwedigaethau canolradd

Galwedigaethau clercaidd, gwerthu a thechnegol **nad ydynt yn ymwneud â phwerau cynllunio neu oruchwylio cyffredinol** (galwedigaethau megis swyddog clercaidd, swyddog ysgrifenyddol, nyrs gynorthwyol).

### Cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gofnod

**Cyflogi llai na 25 o bobl** ac yn gwneud yr holl neu'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau mentro a rheoli. Yn hunangyflogedig ac yn cynnig unrhyw fasnach neu wasanaeth personol (nad yw'n broffesiynol) a heb unrhyw weithwyr cyflogedig.

### Gweithrediadau goruchwylio a thechnegol is

**Goruchwyliaeth uniongyrchol** a ffurfiol **dros eraill** yn gweithio mewn galwedigaethau technegol, rhannol gyffredin neu gyffredin is, e.e. fforman neu oruchwyliwr.

Galwedigaethau crefft dechnegol a galwedigaethau gweithredwyr proses dechnegol is (galwedigaethau megis mecanydd, plymwr, gwneuthurwr offer, trydanwr, garddwr).

### Galwedigaethau lled-gyffredin

Galwedigaethau gwerthu, gwasanaethu, technegol, amaethyddol, clercaidd a gofal plant gyda thymor byr a chyfnawid arian yn uniongyrchol am ymdrech a lle mae'r gwaith angen elfennau o ddoethineb gan y gweithiwr (galwedigaethau megis gweithiwr post, gweithredydd peiriant, gofalwr, croesawydd, cynorthwy-ydd gwerthu).

### Galwedigaethau cyffredin

Yn debyg i alwedigaethau rhannol gyffredin, ond gyda chontract llafur sylfaenol a **lle mae'r angen lleiaf am ddoethineb gan y gweithiwr** (galwedigaethau megis gyrrwr fan, glanhawr, porthor, labrwr, gweinydd/gweinyddes).

#### **Pethau i'w cofio:**

#### **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y canlynol:**

- Ffurflen gais wedi'i llenwi, ei llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi arni
- 2 ffurflen adroddiad/llythyr geirda gan ganolwyr a manylion cysylltu'r ddau ganolwr
- Llungopïau o unrhyw ddogfennaeth gefnogi berthnasol (e.e. tystysgrif gradd, cofnodion canlyniadau, canlyniadau profion TOEFL)
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb
- Cynnig Ymchwil (ymgeiswyr ymchwil yn unig)